**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 12 Medi 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | S J Gallagher | D W Helliwell |
| C A Holley | P R Hood-Williams | M H Jones |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Huw Mowbray | Gwasanaeth Adfywio Economaidd A Chynllunio |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P K Jones
Aelodau Cyfetholedig Statudol:
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig:

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

**2 Cofnodion**

- Cymeradwywyd gan

**3 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

**4 Adroddiad Diweddaraf am y Prosiect**

- Aed â'r panel drwy'r adroddiad dangosfwrdd

- Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y Grŵp Llywio a Bwrdd y Rhaglen at ddiben cynorthwyo wrth fonitro prosiectau
- Nid yw llif yr wybodaeth ar y pwynt hwn wedi bod yn hawdd
- Bydd angen mewnbwn ariannol gan y swyddog perthnasol
- Mae Cam 1 yn mynd rhagddo -  nid yw pob rhan o Gam 1 yn rhan o'r Fargen Ddinesig
- Mae manylion yr arena ddigidol yn cael eu datblygu
- Mae angen i'r gwesty fod yn un 3* i ddenu arian grant
- Mae arolygon yn cael eu cynnal i edrych ar faterion 'hawl i oleuo' a allai god.
- Nid yw'r holl brosiectau'n rhai'r Fargen Ddinesig
- Mae rhai prosiectau'n gymysgedd o arian y Fargen Ddinesig ac arian arall - teimlwyd y gallai hyn fod yn ariannol gymhleth

<u>**Cwestiynau**</u>

1. **Beth yw'r cynllun wrth gefn os na lwyddir i gael gwesty 4*?**
- Mae'n debygol na chaiff gwesty ei adeiladu
- Mae trafodaeth barhaus ynghylch amodau grant
- Mae rhai problemau amseru posib, ac yn ddelfrydol mae angen adeiladu'r arena a'r gwesty ar yr un pryd.

2. **Beth yw'r gyllideb gyfalaf ymrwymedig?**
- £124m gan gynnwys adeiladu, arian wrth gefn a ffïoedd ond nid yw'r ffigur terfynol wedi'i bennu eto
- Mae Cyngor Abertawe'n benthyca swm mawr
- Llunnir adroddiad â'r holl gostau terfynol fel y gellir penderfynu ar fenthyca
- Daw'r gyllideb o'r gronfa refeniw a hon fydd yr ased cyfalaf yn y pen draw
- Mae hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb refeniw
- Mae peth o'r arian yn fenthyciad gwerth £6.8m gan Lywodraeth Cymru sy'n daladwy dros 20 mlynedd ar ôl i'r arena gael ei hadeiladu. Mae’n ddi-log a chaiff y taliadau cyntaf eu gohirio nes agoriad yr arena
- Yr unig swm cyfalaf yw £1.5m ar gyfer gwaith cynnar
- Daw'r prif gyfalaf unwaith y ceir y ffigurau terfynol o ran costau

3. **I adeiladu gwesty 4*, a ydym yn prydlesu i gwmni gwestai**
- Bydd datblygwr yn contractio i Gyngor Abertawe ac yna’n rhoi ei ryddfraint i'r cwmni perthnasol
- Bydd Croeso Cymru'n rhoi'r grant i'r datblygwr, nid y cyngor

4. **O gofio bod gwaith yn mynd rhagddo yn yr ardal, sut beth fydd y siâp mewnol?**
- Mae'r siâp mewnol yn hyblyg a gall fod fformatiau gwahanol iddo
- Mae lle i uchafswm o 3,500 o bobl
- Gellir sicrhau lle hefyd ar gyfer cynadleddau ac ystafelloedd cyfarfod gydag ardaloedd VIP

5. **Os cynhelir ymgynghoriad parhaus â phobl leol, pa mor aml fyddwn ni'n cwrdd â phobl a busnesau?**
- Dyma un o'r prosiectau cyntaf yng Nghymru i fynd drwy'r broses gynllunio newydd y mae angen ymgynghori'n fwy helaeth yn ei chylch.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a pharhaus, weithiau'n fisol, â'r busnesau y mae hyn yn effeithio arnynt

6. **Mae lle i 3,500 o bobl yn ymddangos yn gymedrol ar gyfer cyngerdd bop.**
- Dywedwyd bod y diwydiant arenâu'n newid ac mae pobl am fynd i gyngherddau llai
- Mae’r grym bargeinio yn nwylo ATG, gweithredwyr yr arena
- Gwnaed llawer o ymchwil i'r farchnad ymlaen llaw
- Mae ATG yn ymrwymo i brydles 30 mlynedd
- Mae'r brifysgol yn awyddus i ddenu cynadleddau addysgol ynghyd â'r diwydiant technoleg
- Mae'n faes cystadleuol

7. **A yw'r cynllun busnes wedi'i gymeradwyo - roedd hyn fod i ddigwydd ym mis Mehefin?**
- Dim eto
- Cyngor Abertawe sy'n talu am isadeiledd Ffordd y Brenin a grant gan WEFO
- Cafwyd peth problemau gyda chontractwyr ond mae'r rhain wedi'u datrys a chynhelir cyfarfodydd misol ac ymgynghoriadau â phreswylwyr

8. **Mae'r gwaith ar Ffordd y Brenin wedi'i rannu'n gamau - a yw'r holl brosiectau hyn yn gweithio gyda'i gilydd?**
- Mae'r gwaith yn cael ei fonitro'n ddyddiol i liniaru unrhyw broblemau
- Bydd tarfu gan ei fod yn waith sylweddol
- Mae rheoli'r lleoedd caeedig yn bwysig

9. **A oes diddordeb mewn llenwi lleoedd ar Ffordd y Brenin?**
- Os na fyddwn yn ei datblygu, bydd yn aros yn wag
- Mae datblygwyr yn prynu llawer o eiddo
- Ni fydd byth yn ardal fanwerthu eto
- Ystyrir manteisio ar ddatblygwyr preifat a siopau annibynnol

10. **Mae gan Abertawe lefelau GVA isel**
- Rydym yn gobeithio creu incwm, gyda swyddi uwch-dechnoleg

11. **Cyhyd ân bod ar darged, dylem barhau â'r cynllun, ac mae angen i ni sicrhau bod yr awdurdod yn cefnogi siopau bach**
- Nid oes digon o bobl yn gweithio ac yn byw yng nghanol y ddinas, a'r gobaith yw y bydd hyn yn newid
- Mae gormod o fyfyrwyr yng nghanol y ddinas

12. **Beth yw'r 'strategaeth chwarae' ac ym mhle y bydd hi?**
- Mabwysiadodd y cyngor y polisi chwarae a'r cymeriad yw Dilly'r Ddraig
- Bydd llwybrau chwarae ledled canol y ddinas

13. **Mae'r prosiect CUIDAR yn edrych ar sut mae angen cynnwys plant a phobl ifanc pan fydd pethau'n mynd o'i le e.e. lleoliadau risg uchel. Dylai'r math hwn o gynllunio mewn argyfwng gael ei ystyried**
- Bydd y tîm yn dilyn trywydd hyn (anfonwyd dolenni)

14. **Beth yn union yw sgwâr digidol?**
- Y sgwâr digidol yw’r arena a'r ardal gyhoeddus o'i chwmpas
- Y Pentref Digidol yw lle swyddfa Ffordd y Brenin
- Mae gan Abertawe hanes cryf o greu busnesau ond hanes gwael o'u cadw

15. **Beth yw'r cynlluniau ar gyfer yr arcêd yn y dref?**
- Hoffai'r cyngor weld mwy o ymwelwyr a newidiadau i fynediad i mewn ac allan o'r arcêd i greu gwell cysylltiadau

16. **Beth yw effaith colli'r prosiect 5?**

- Collwyd i ardaloedd mwy datblygedig ond roedd y cais yn dda
- Rydym eisoes yn edrych ar gynigion eraill ond llwyddodd i godi proffil Abertawe

**17. Beth yw lefel deiliadaeth yr adeiladau ar Ffordd y Brenin?**

- Mae angen gosod 50% cyn i ni symud ymlaen
- Mae deiliaid posib

**18. Beth yw'r broses ar gyfer y cytundeb busnes wedi iddo gael ei gymeradwyo?**

- Disgwylir adborth gan y Llywodraeth ym mis Hydref
- Mae grŵp sector cyhoeddus a grŵp sector preifat
- Bydd y grŵp sector preifat yn dadansoddi'r prosiectau yna'r grŵp sector cyhoeddus

**19. Ymddengys fod arian y Fargen Ddinesig yn eilradd**

- Mae'r cyngor wedi gorfod benthyca ymlaen llaw a thelir yr arian yn ôl wrth iddo ddod i mewn dros y 15 mlynedd nesaf
- Arian cam cyntaf sydd ar gyfer Prosiect Abertawe
- Bydd y Llywodraeth yn rhoi gwerth tua £36m o gyllid ar gyfer y Fargen Ddinesig dros y 15 mlynedd nesaf a'r awdurdod lleol yn rhoi tua £76m. Bydd prosiectau eraill yn ogystal â hyn, a bydd angen eglurhad ynghylch hyn.

**Gwybodaeth arall**

- Mae peth problemau llifogydd a draenio ar afon Tawe ar hyn o bryd - mae hyn yn cael ei adolygu
- Yr unig arian sydd wedi'i awdurdodi ar gyfer Sgwâr y Castell yw £50 mil ar gyfer astudiaethau dichonoldeb, yna aiff unrhyw gynnig gerbron y Cabinet
- Bwriedir edrych ar y mannau lle ceir tagfeydd o gwmpas y ddinas - Dyfaty a Ffordd Fabian
- Nid yw timau'r prosiectau sy'n ymdrin â'r gwaith hwn yn ddigon mawr ac maent yn gweithio'n hynod galed

**5 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

- Cadw'r cynllun gwaith fel y mae
- Gwahodd aelodau perthnasol o'r Cabinet i bob sesiwn
- Y potensial ar gyfer y cynllun gwaith i fod yn hyblyg wrth symud ymlaen

Daeth y cyfarfod I ben am 11.40 am

**Cadeirydd**